Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Dyddiad / Date: 18/04/23 E-bost / E-mail: Towns@sirgar.gov.uk

Annwyl Syr/Fadam,

Cyllid sydd ar gael drwy Cyngor Sir Gar

Mae Cyngor Sir Gar yn ysgrifennu'r llythyr yma, er mwyn eich hysbysu o'r amryw o opsiynau cyllid sydd ar gael o fewn y Sir. Mae yn 5 opsiwn cyllid gwahanol ar gael, ac mae'r rhain ar agor ac yn derbyn ceisiadau, gydag un yn bwriadu ail agor ym Mis Mehefin 2023. Dyma'r rhestr isod o beth yn union sydd ar gael ar eich cyfer:

Cronfa Eiddo Gwag Canol Trefi

Ariennir Cronfa Eiddo Gwag Canol Trefi gan Gronfa Ffyniant Cyffredin Llywodraeth y DU. Bydd y gronfa yn targedu eiddo gwag y tu mewn i ffiniau llinellau coch penodedig yn nhrefi Rhydaman, Caerfyrddin a Llanelli. Bydd y cyllid ar gael i berchnogion / les ddeiliaid (prydles 7 mlynedd o leiaf) a bydd yn canolbwyntio ar sicrhau bod eiddo gwag ar y llawr gwaelod yn cael eu defnyddio at ddibenion masnachol unwaith eto. Ni fydd gwaith hapfasnachol yn cael ei gefnogi. Yr uchafswm a gaiff ei ddyfarnu bydd £30,000 fesul cais ar gyfradd ymyrryd o 70%.
Os bydd y cais yn cael ei gyflwyno gan landlord sy'n bwriadu gosod yr eiddo, cyn cyflwyno cais llawn bydd angen i denant cyn gosod / terfynol fod yn ei le.
Am fwy o fanylion cysylltwch ar e-bost: trefi@sirgar.gov.uk
Gwefan: Cronfa Eiddo Gwag Canol Trefi (llyw.cymru)

Cefnogi Busnesau Lleol

Mae'r angor Cefnogi Busnesau Lleol yn cynnwys tair elfen allweddol -

Grantiau cychwyn busnes a thyfu busnes

Fel rhan o'i ymrwymiad parhaus i gefnogi datblygu economaidd a busnesau drwy'r cyfnod heriol hwn, mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cyflwyno Grant Tyfu ac Adfer Busnes Sir Gaerfyrddin sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth y DU drwy'r Gronfa Ffyniant Cyffredin.
Nod yr ymyrraeth grant yw cryfhau ecosystemau entrepreneuriaid lleol, a chefnogi busnesau ym mhob cam o'u datblygiad i ddechrau, cynnal, tyfu ac arloesi, gan gynnwys trwy rwydweithiau lleol.
Grantiau rhwng £1,000 a £10,000 ar gael. Gellir ystyried grantiau o hyd at £50,000 fesul achos ar gyfer ceisiadau sy'n dangos yn glir brosiectau arloesi, Ymchwil a Datblygu a/neu ddiogelu at y dyfodol sy'n gysylltiedig â'r strategaeth arloesi leol.
Bydd pob grant yn seiliedig ar 50% o'r costau cymwys neu uchafswm o £5,000 ar gyfer pob swydd sy'n cael ei chreu, a/neu £5000 ar gyfer pob swydd sy'n cael ei diogelu, pa un bynnag yw'r lleiaf. (Rhaid creu o leiaf un swydd newydd a/neu ddiogelu un swydd gyfwerth ag amser llawn (CALL) er mwyn cael mynediad at y grant.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch ar e-bost: businessfund@sirgar.gov.uk
Gwefan: Grant cychwyn busnes (llyw.cymru) Grant Tyfu Busnes (llyw.cymru)

Jason Jones BSc MRICS MBA
Pennaeth Adfywio, Neuadd y Sir, Caerfyrddin SA31 1JP
Head of Regeneration, County Hall, Carmarthen SA31 1JP

EIN POBL OUR PEOPLE
BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE
Mae croeso i chi gysylltu â mi yn y Gymraeg neu'r Saesneg
You are welcome to contact me in Welsh or English

Cronfa Ynni Adnewyddadwy Busnes

Fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i gefnogi datblygu economaidd a busnesau drwy'r cyfnod heriol hwn, yn ogystal â bod yn garbon sero net erbyn 2030, mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cyflwyno Cronfa Ynni Adnewyddadwy Busnes Sir Gaerfyrddin. Bydd y Gronfa yn gynllun grant trydydd parti, a fydd yn darparu cymorth cyfalaf i fusnesau tuag at brynu systemau ynni adnewyddadwy ar gyfer eu safleoedd busnes.
Nod y gronfa yw helpu busnesau lleol i fod yn gynaliadwy yn ystod y cyfnod heriol hwn, a rhoi cymorth iddynt dyfu a ffynnu a'u helpu ar eu taith tuag at ddod yn garbon sero net.
Grantiau rhwng £1,000 (lleiafswm) a £25,000 (uchafswm) ar gael tuag at gost y system ynni adnewyddadwy
Bydd pob dyfarniad grant yn seiliedig ar ddim mwy na 50% o'r costau cymwys

Am fwy o wybodaeth cysylltwch trwy e-bost: **CYAB@sirgar.gov.uk**
Gwefan: Cronfa Ynni Adnewyddadwy Busnes (llyw.cymru)

Cronfa Benthyciadau Canol Trefi

Fel rhan o'n hymrwymiad i alluogi a chefnogi adfywio ac arallgyfeirio canol trefi yn ein Sir, mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi sicrhau cynllun cyllid ad-daladwy ychwanegol drwy Gronfa Benthyciadau Canol Tref Llywodraeth Cymru gyda'r nod o ddod ag eiddo adfeiliedig neu danddefnyddio gwag a safleoedd datblygu segur yng nghanol trefi cynradd Sir Gaerfyrddin yn ôl i ddefnydd economaidd.
Amcan y cynllun Benthyciadau Canol Tref yw cymell a galluogi adnewyddu eiddo ac adeiladu o'r newydd yng nghanol trefi ar draws Sir Gar drwy gynnig benthyciadau di-log i berchnogion eiddo, datblygwyr, buddsoddwyr ac ati, a fydd yn eu tro yn annog ailddefnyddio safleoedd ac adeiladau gwag, heb eu defnyddio a rhai segur yn gynaliadwy. Bydd yr ymyriad hwn yn arwain at greu gofod llawr canol tref at ddefnydd masnachol, hamdden a phreswyl.
Bydd y safle sydd wedi'i gwblhau yn cyfrannu at Ganol Trefi newydd, bywiog ac amrywiol, gan arwain at fwy o ymwelwyr a hyder, gan sicrhau dyfodol cynaliadwy a disglair.
Beth sydd ar gael?
Benthyciadau di-log rhwng £25,000 a £1Miliwn
Ni all y benthyciad ond cefnogi uchafswm o 75% o'r benthyciad i werth cost y prosiect.
Codir ffi weinyddol am fenthyciadau unigol i dalu costau sy'n gysylltiedig â phrosesu a rheoli'r benthyciad ac i adlewyrchu lefel y risg. Ni fydd y ffi, a bennir gan y Panel Benthyciadau, yn fwy na 15% o swm y benthyciad ond mae'n debygol o fod yn llawer llai. Gellir naill ai talu'r costau terfynol sy'n gysylltiedig â'r ffi weinyddol i Gyngor Sir Caerfyrddin yn llawn cyn i'r benthyciad gael ei dynnu i lawr neu ei dalu fesul cam i gyfateb i delerau ad-dalu'r benthyciad. Bydd uchafswm tymor benthyciad am 5 mlynedd.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch ar e-bost: **Benthyciadcanoltref@sirgar.gov.uk**
Gwefan: Cronfa Benthyciadau Canol Trefi (llyw.cymru)

Trawsnewid Trefi

Nod y grant Trawsnewid Trefi yw dod ag adeiladau gwag ac adfeiliedig mewn trefi cymwys yn ôl i ddefnydd masnachol trwy eu hadnewyddu a rhoi pwrpas iddynt unwaith eto. Bydd yn ategu seilwaith gwyrdd i wella bioamrywiaeth a gwella mannau cyhoeddus. Bydd yr arian yn creu canol trefi bywiog, gyda mannau gwaith hyblyg a mwy o fynediad at wasanaethau i drigolion lleol ac i bobl sy'n ymweld â chanol ein prif drefi. Ystyrir bob cais fesul un. Mi fydd cyllid y Trawsnewid Trefi yn ail agor ar gyfer ceisiadau ym Mis Mehefin 2023, ac mi fydd y prosiectau hynny sy'n derbyn cymeradwyaeth yn gorfod cwblhau'r holl brosiect erbyn mis Chwefror 2025.

Jason Jones BSc MRICS MBA
Pennaeth Adfywio, Neuadd y Sir, Caerfyrddin SA31 1JP
Head of Regeneration, County Hall, Carmarthen SA31 1JP

CYFRANOGI · ARWAIN · CEFNOGI
EIN POBL
OUR PEOPLE
ENGAGE · LEAD · SUPPORT
BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE
Mae croeso i chi gysylltu â mi yn y Gymraeg neu'r Saesneg
You are welcome to contact me in Welsh or English

Am fwy o wybodaeth cysylltwch ar e-bost: TransformingTowns@sirgar.gov.uk
Gwefan: Trawsnewid Trefi (llyw.cymru)

Gorchymyn Datblygu Lleol: (GDLl)
Rydym wedi sefydlu 'Tasglu' gyda'r bwriad o oruchwylio'r gwaith o adfywio canol trefi. Mater allweddol y mae'r Tasglu wedi bod yn ceisio mynd i'r afael ag ef yw nifer yr unedau manwerthu gwag yng nghanol trefi. Nodir y cyfraniad posibl y gallai newid mewn polisi cynllunio ei wneud i hwyluso buddsoddiad a helpu i gymell datblygiad. Mae'r Gorchmynion Datblygu Lleol yn cydnabod rôl symud canol y dref i fod yn gyrchfan ac amgylchedd byw yn ogystal â chanolfan fanwerthu. Mae'n ceisio cyflwyno trefn gynllunio ganiataol a fyddai'n caniatáu i newidiadau defnydd penodol ddigwydd heb i'r ymgeisydd orfod gwneud cais am ganiatâd cynllunio.
Mae gennym GDLl yn y canol trefi a ganlyn:
Rhydaman, Caerfyrddin

Am fwy o wybodaeth cysylltwch ar ebost: **planninghwb@sirgar.gov.uk**
Gwefan: Gorchymyn Datblygu Lleol (GDLl) (llyw.cymru)

Os oes diddordeb gennych chi mewn un o'r opsiynau uchod, cysylltwch gyda'r timau priodol am unrhyw gymorth pellach.

Yn gywir,

Jason Jones BSc MRICS MBA
Pennaeth Adfywio, Neuadd y Sir, Caerfyrddin SA31 1JP
Head of Regeneration, County Hall, Carmarthen SA31 1JP

CYFRANOGI · ARWAIN · CEFNOGI
EIN POBL
OUR PEOPLE
ENGAGE · LEAD · SUPPORT
BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE
Mae croeso i chi gysylltu â mi yn y Gymraeg neu'r Saesneg
You are welcome to contact me in Welsh or English